## Gweddi adeg y Pasg

Anfeidrol, dragwyddol Dduw, awdur y bywyd daearol a'r bywyd ysbrydol, ceisiwn heddiw eto oleuni dy bresenoldeb, dy ddylanwad a'th air sy'n llenwi ein bywydau wrth ei astudio a'i drysori. Y mae arnom hiraeth mawr am fod yn well pobl, a gwyddom fod i ni yn yr oedfa hon gyfle eto i alw arnat ar lwybr y weddi a offrymir yn awr yn enw Iesu.

'Clyw fy nghri, O Fab y dyn,
trist ac aflan yw fy llun;
pechu'n erbyn gwaed y Groes
barodd imi chwerw loes;
cuddia fi'n dy farwol glwy
fel na allwyf bechu mwy,
yna canaf am dy waed
nes meddiannu'n nefol wlad.'

Wrth droi i Galfaria a gweld Iesu yn ein cofleidio ni allwn ond ymgrymu'n wylaidd a dweud o'r newydd ein bod ni am ei ddilyn, ei garu, ei wasanaethu holl ddyddiau'n bywyd, a gwybod fod arnom angen tyfu'n ysbrydol ac aeddfedu.

'Megis ffrwythlon bren yn tyfu
wrth afonydd dyfroedd byw,
mae ei enaid yn cynyddu
dan fendithion gwenau Duw;
hyfryd wlith, gras di-lyth,
a wreiddia'i ysbryd byth.'

Dyna ein dyhead pennaf: tyfu a ffrwythloni fel disgyblion i Iesu Grist. Ni fu'n hawdd erioed ar y disgybl. Gwyddom fod y byd yn gwrthwynebu mor gyson ddaioni a thystiolaethau'r rhai sy'n dilyn y Gwaredwr. Mae'n hawdd digalonni a mynd yn debyg i'r byd mewn materoliaeth a diffyg dyhead am dyfiant ysbrydol. Ond y fuddugoliaeth fawr i bawb ohonom yw ein disgyblu ein hunain i gadw'r gorchmynion i garu, i fod yn ffyddlon, i barchu'r bydysawd, i ymddiried yn llwyr yn Nuw ein Craig a'n Noddfa. A dywedwn gydag argyhoeddiad:

'D'eiriau Di, melys cu,
sydd yn ddigon byth i ni.'

Yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.